# CYNGOR BLYNYDDOL

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD IAU 10 MAI 2018 AM 6.00PM

---

PRESENNOL:

Y Cynghorydd J. Bevan - Maer
Y Cynghorydd M. Adams - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, K. Dawson, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, M. James, V. James, G. Johnston, Mrs B. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, B. Miles, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, Mrs M.E. Sargent, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Ms E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. . Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Cymunedau), L. Lane (Swyddog Monitro Dros Dro), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democrataidd), D. Marr (Cyngor Dinas Caerdydd) ac E. Sullivan (Uwch-swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgorau).

### 1. FFILMIO AR GYFER GWE-DDARLLEDU A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rhai oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac y bydd ar gael i'r cyhoedd ei wylio yn fyw, ac yn yr archif ar wefan y Cyngor. Cynghorodd y gwneir y penderfyniadau trwy godi dwylo.

### 2. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Angel, P.J. Bevan, N. Dix, C. Elsbury, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, D. Harse, L. Jeremiah, S. Kent, Mrs P. Marsden, Mrs G. Oliver, Mrs L. Phipps, R. Saralis a J. Scriven.

### 3. SYLWADAU GAN Y MAER SY'N YMDDEOL

Croesawodd y Maer sy'n ymddeol, y Cynghorydd J. Bevan, bawb oedd yn bresennol i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor, a diolchodd i'w gyd-aelodau am eu cymorth, a siaradodd am y fraint o allu cwrdd â thrigolion ysbrydoledig a phobl ifanc talentog y fwrdeistref yn ystod ei flwyddyn fel Maer. Diolchodd Bevan i'w ferch Beverly am fod yn gydymaith iddo, y Cynghorydd Mike Adams a'i wraig am weithredu fel dirprwy ac am eu cymorth dros y deuddeg mis diwethaf. Diolchodd yn benodol i dîm y swyddfa ddinesig am eu hamynedd a'u gwaith caled. I gloi ei anerchiad, diolchodd y Cynghorydd Bevan i bawb sydd wedi cynorthwyo ei apêl elusennol ar gyfer Ymchwil Canser Cymru a CRY er cof am Jack Thomas, sydd wedi codi £7,000 hyd yma.

**4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar y dechrau nac yn ystod y cyfarfod.

**5. I ETHOL MAER Y CYNGOR NES Y CYFARFOD BLYNYDDOL YM MIS MAI 2019 A GWNEUD TALIAD CYFLOG DINESIG**

Cyflwynwyd ac eiliwyd y byddai'r Cynghorydd M. Adams yn cael ei ethol yn Faer ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Trwy godi dwylo, cafodd hyn ei gytuno'n unfrydol.

> PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd M. Adams yn cael ei ethol yn Faer ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili nes y penodir olynydd yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2019.

Diolchodd y Cynghorydd M. Adams i'w gyd-aelodau am yr anrhydedd hon, a llofnododd y Datganiad Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr Dros Dro. Rhoddodd wybod i'r cyfarfod mai ei wraig, Gloria Adams, fydd ei gydymaith.

**6. I BENODI DIRPRWY FAER Y CYNGOR NES Y CYFARFOD BLYNYDDOL YM MIS MAI 2019 A GWNEUD TALIAD CYFLOG DINESIG**

Cyflwynwyd ac eiliwyd y byddai'r Cynghorydd J. Simmonds yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Trwy godi dwylo, cafodd hyn ei gytuno yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd J. Simmonds yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili nes y penodir olynydd yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2019.

Diolchodd y Cynghorydd J. Simmonds i'w gyd-aelodau am yr anrhydedd hon, a llofnododd y Datganiad Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr Dros Dro. Rhoddodd wybod i'r cyfarfod mai ei wraig, Karen Simmonds fydd ei gydymaith.

**7. CYHOEDDIAD Y MAER**

Cyhoeddodd y Maer, y Cynghorydd M. Adams, mai'r elusen a ddewiswyd ganddo ar gyfer ei dymor yn y swydd byddai Sefydliad "Make a Smile" Matthew Walkin. Diolchodd i'r Cynghorydd Bevan am y cyfle i ymgymryd ag ystod eang o ddyletswyddau fel Dirprwy, a'i fod yn edrych ymlaen at y flwyddyn ddiddorol, hwyliog a phrysur sydd o'i flaen.

**8. I NODI Y BYDD Y CYNGHORYDD D.V. POOLE YN DERBYN TALIAD CYFLOG UWCH FEL ARWEINYDD Y CYNGOR**

Cyflwynwyd ac eiliwyd y byddai'r Cynghorydd D.V. Poole yn cael ei benodi'n arweinydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac yn derbyn taliad cyflog uwch. Trwy godi dwylo, cafodd hyn ei gytuno'n unfrydol.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd D.V. Poole yn cael ei benodi'n Arweinydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a nodwyd y byddai'n derbyn taliad cyflog uwch.

**9. I NODI PENODIAD DIRPRWY ARWEINYDD/ARWEINWYR A GWNEUD TALIAD CYFLOG UWCH**

PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorwyr Mrs B. Jones a S Morgan yn cael eu penodi'n Ddirprwy Arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a nodwyd y byddant yn derbyn taliad cyflog uwch.

**10. AELODAU'R CABINET**

PENDERFYNWYD y byddai'r penodiadau gan Arweinydd y Cyngor ynghylch aelodau'r Cabinet yn cael eu nodi ac y byddant yn derbyn taliad cyflog uwch:-

| | |
|---|---|
| Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu | Y Cynghorydd Barbara Jones |
| Yr Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd | |
| Eiriolwr Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol | Y Cynghorydd Sean Morgan |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Y Cynghorydd Colin Gordon |
| Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd | Y Cynghorydd Eluned Stenner |
| Gwasanaethau'r Gymdogaeth | Y Cynghorydd Nigel George |
| Addysg a Chyflawniad | Y Cynghorydd Philippa Marsden |
| Gofal Cymdeithasol a Lles | Y Cynghorydd Carl Cuss |
| Cartrefi a Lleoedd | Y Cynghorydd Lisa Phipps |

**11. ARWEINYDD Y PRIF GRŴP GWRTHWYNEBU – Y CYNGHORYDD C.P. MANN**

Nodwyd y bydd y Cynghorydd C.P. Mann yn derbyn taliad cyflog uwch fel Arweinydd y prif grŵp gwrthwynebu.

**12. DATGANIAD YR ARWEINYDD**

Yn rhan o'i ddatganiad, cyflwynodd y Cynghorydd D.V. Poole *montage* fideo a amlinellodd rhai o'r 600 a mwy o wasanaethau y mae'r Cyngor hwn yn ei ddarparu, bob awr o bob dydd.

Talodd deyrnged i raddfa ac amrywiaeth y gwasanaethau a gyflwynir i'r trigolion er gwaethaf toriadau sylweddol i gyllidebau, galw cynyddol a disgwyliadau ar adnoddau cyfyngedig. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r effaith gadarnhaol dros y 12 mis diwethaf i wneud ein cymunedau'n lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw, a diolchodd i staff gweithgar Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Poole at y Cynllun Corfforaethol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ddiweddar, a'r blaenoriaethau allweddol a amlinellwyd yn y ddogfen honno. Byddai'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hategu gan gyfres o Ymrwymiadau Cabinet ac egwyddorion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn gweld Cyngor cydnerth a chynaliadwy wrth edrych ymlaen. Cyfeiriwyd at heriau caledi a'r adegau ariannol anodd sydd o'n blaenau a rhoddwyd sicrwydd y byddai'r Cabinet yn ymrwymo i yrru'r agenda hon ymlaen a throi'r egwyddorion yn weithredoedd.

Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu fel y sioeau teithiol staff a gyflwynwyd yn ddiweddar gan y Prif Weithredwr Dros Dro. Rhoddodd y sioeau teithiol hyn gyfle i staff ddysgu mwy am gynlluniau'r dyfodol a'r rôl hanfodol sydd gan bob aelod staff wrth eu llywio. Cyfeiriodd y Cynghorydd Poole at yr apwyntiadau diweddar ag uwch-reolwyr allweddol a phwysleisiodd eu pwysigrwydd wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus o

ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol. Wrth gyfeirio at y ddarpariaeth yn y dyfodol, roedd yn cydnabod bod angen ailfeddwl y ffordd y bydd gwasanaethau'n cael eu cyflwyno, ac er mwyn gwneud hyn, byddai rhaglen o sgyrsiau â chymunedau'n cael ei chyflwyno dros y flwyddyn nesaf.

Cadarnhawyd y byddai cyrhaeddiad addysg yn un o'r prif flaenoriaethau dros y deuddeg mis nesaf. Felly, byddai angen sefydlu Bwrdd dros y misoedd nesaf i roi rhagor o gyflymder a ffocws ar gyfer y gwelliannau sydd eu hangen. Byddai'r cynigion Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn gweld buddsoddiad pellach o £110m mewn ysgolion dros y 7 mlynedd nesaf, gan gyflwyno buddion anferth ar draws y fwrdeistref sirol. Addawodd ei ymroddiad i sicrhau mwy o gydraddoldeb ansawdd bywyd ar draws y sir, gan gau'r bwlch rhwng tlodi a ffyniant.

Byddai gweithio gyda rhanbarthau eraill hefyd yn flaenoriaeth, a chynghorwyd yr Aelodau bod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn parhau i wneud cynnydd da, a rhoddodd dawelwch meddwl iddynt y byddai'n parhau i sicrhau eu bod yn gwrando ar lais Caerffili yn y trafodaethau rhwng y 10 awdurdod partner. Byddai tai a'r rhaglen SATC yn parhau i fod yn ffocws, a nodwyd bod dros 75% o'r gwaith mewnol a dros 40% o'r gwaith allanol wedi cael ei gwblhau hyd yma, a bod y targed o gwblhau erbyn 2020 yn parhau i fod yn gwbl gyraeddadwy.

Mewn perthynas â chwaraeon a hamdden, cyfeiriodd yr Arweinydd at y Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch uchelgeisiol a fyddai'n amlinellu dull integredig o hybu lles a gweithgarwch corfforol ar draws yr holl gymunedau dros y 10 mlynedd nesaf. O ran Rheoli Gwastraff, nodwyd y byddai adolygiad o wasanaethau casglu gwastraff hefyd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod perfformiad ailgylchu a gwerth am arian yn cael eu cyflawni ac yn gynaliadwy.

Blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol fyddai parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnal y lefel gofal a chymorth a ddarperir o ddydd i ddydd, wrth i'r galw gynyddu a'r cyllid yn lleihau. Bydd y cyfleoedd ar gyfer cydweithio a goblygiadau deddfwriaethau newydd hefyd yn cael eu harchwilio'n fwy manwl dros y flwyddyn nesaf.

Cynghorwyd yr aelodau mai'r hyn sy'n sail i'r rhaglen newid uchelgeisiol hon yw'r Rhaglen Gwella Busnes, sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth a rheoli, ymgysylltu a chyfathrebu, ac mae datblygiad y prosiect strategol yn gwneud cynnydd da yn barod.

Mewn perthynas ag aildrefnu Llywodraeth Leol a'r papur gwyrdd newydd, ail-gadarnhaodd y Cynghorydd Poole ei ymroddiad i'r awdurdod hwn, a'r neges bod Caerffili yn ddigon mawr, yn ddigon cryf ac yn ddigon cydnerth i sefyll ar ei draed ei hun, ac mai dyma fyddai symbyliad ei drafodaeth â Llywodraeth Cymru.

I gloi, derbyniodd y Cynghorydd Poole fod cyfnod heriol a chyffrous o'n blaenau yng Nghaerffili, ond byddai angen gwneud penderfyniadau anodd, ond mae'n credu'n gryf bod yr awdurdod wedi paratoi'n dda ar eu cyfer.

**13. MATERION Y CYFANSODDIAD**

Ystyriwyd yr adroddiad a amlinellodd y materion yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor, a rhoddodd ddiweddariad ar newidiadau i Ran 3 y Cynllun Dirprwyo, Templed yr Adroddiad a gofynnodd am awdurdod cynrychiolwyr ar gyfer y Swyddog Monitro Dros Dro i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor.

Cynghorwyd yr aelodau bod Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn gofyn i'r Cyfarfod Blynyddol benodi o leiaf un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, Pwyllgor Safonau a Phwyllgorau eraill o'r fath; mae'r Cyngor yn gweld y dylid delio â materion na chedwir i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol. Nodwyd nad oes newidiadau ar y gweill i'r strwythur pwyllgorau presennol, gan

gynnwys nifer yr aelodau a ddyrennir i bob Pwyllgor; mae'r trefniadau presennol yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol deg, ac, felly, gofynnwyd i'r aelodau nodi'r trefniadau presennol. Hefyd, gofynnwyd i'r aelodau nodi nad oedd unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl y pwyllgorau, ac nid yw cydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdod wedi newid, ac felly mae dyraniadau'r pwyllgorau'n parhau fel y maent.

O ran y cynllun dirprwyo, cynghorwyd yr aelodau, ar ôl ymgynghori â holl Benaethiaid y Gwasanaethau, bod newidiadau mân wedi'u hatodi fel y gwelir yn Atodiad 1 adroddiad y Swyddog, ac maent wedi cael eu hamlygu mewn print bold ac italics. Mae'r newidiadau'n cynnwys diweddariadau ar ddeddfwriaethau ynghyd â newidiadau i deitlau swyddi a chyfrifoldebau swyddogaethau perthnasol.
Mewn perthynas â'r newidiadau i'r templed adroddiad fel yr atodir yn Atodiad 2 adroddiad y Swyddog, cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 3 yr adroddiad, â'r teitl 'Links to Strategy', a fydd yn cynnwys cyfeiriadau at y Cynllun Corfforaethol o nawr ymlaen. Ar y cyd â'r newid arfaethedig hwn, bydd Swyddogion yn datblygu arweiniad i gyd-fynd â'r paragraff newydd, a byddant yn rhoi templed newydd ar brawf am gyfnod o dri mis cyn ei gyflwyno'n llawn. Yn ogystal, bydd paragraff i gloi yn cael ei ymgorffori i'r templed.

Cyflwynwyd ac eiliwyd y byddai'r argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy godi dwylo, cafodd hyn ei gytuno'n unfrydol.

PENDERFYNWYD, o ganlyniad i'r rhesymau yn yr adroddiad: -

(i) dylid nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad;

(ii) dylid cymeradwyo'r argymhellion a amlinellir ym mharagraffau 5.2, 6.1, 7.3, 8.2 a 9.2.

**14. PLEIDLEISIO ELECTRONIG YN Y CYNGOR LLAWN**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a ofynnodd am gymeradwyaeth y Cyngor i ailgyflwyno'r system bleidleisio electronig.

Ystyriwyd yr adroddiad yn flaenorol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, a nodwyd sylwadau'r aelodau. Cyfeiriodd Mrs Forbes-Thompson (Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd) yr aelodau at adran 1.3 yr adroddiad a'r gweithdrefnau sy'n gynwysedig ynddi. O ran ailgyflwyno'r system, cyfeiriodd y Swyddog at argymhelliad 2.2 yr adroddiad ac ystyried cyflwyno cyfnod pontio, lle byddai pleidleisio electronig yn cael ei gyflwyno'n raddol dros 4 cyfarfod.

Croesawodd yr aelodau ailgyflwyniad y system, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch pa eitemau ar yr agenda fyddai'n defnyddio pleidleisio electronig yn ystod y cyfnod pontio. Cadarnhaodd y Swyddog mai'r eitem olaf ar agenda nesaf y Cyngor fyddai'n defnyddio'r system bleidleisio electronig, ac yna'r ddwy eitem olaf ac yn y blaen. Ar ôl 4 cyfarfod, gwneir yr holl benderfyniadau gan ddefnyddio'r system.

Cyflwynwyd ac eiliwyd y byddai'r argymhelliad sy'n gynwysedig yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Trwy godi dwylo, gan nodi bod 1 unigolyn yn erbyn hyn, cafodd hyn ei gytuno gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sy'n gynwysedig yn yr adroddiad,: -

(i) dylai holl gyfarfodydd y Cyngor Llawn ddefnyddio'r system bleidleisio electronig ar gyfer pob pleidlais i'w chymeradwyo;

(ii) dylid ailgyflwyno'r weithdrefn a gytunwyd gan y Cyngor ar 7 Hydref, fel y nodir yn adroddiad y Swyddog;

(iii) cymeradwyo cyfnod trosglwyddo, lle cyflwynir pleidleisio electronig yn raddol dros 4 cyfarfod.

## 15. CYNNIG I DDIDDYMU GRŴP CYSWLLT COMPOST BRYN

Ystyriwyd yr adroddiad a ofynnodd am gymeradwyaeth y Cyngor i ddiddymu Grŵp Cyswllt Compost Bryn.
Sefydlwyd Grŵp Cyswllt Compost Bryn gan y Cyngor ym mis Mawrth 2010 i fynd i'r afael â chwynion am yr arogl yn gysylltiedig â'r broses In Vessel Composting (IVC). Mae IVC bellach wedi'i ddadgomisiynu, a bellach mae gweithfa treulio anaerobig ar y safle, a gafodd wared â ffynhonnell yr arogl compost gwastraff bwyd. Felly, nid oes angen parhau â chyfarfodydd y Grŵp Cyswllt.

Yn sgil ymgynghoriad ag aelodau wardiau lleol, mae'r adroddiad yn cynnig y dylid sefydlu grŵp anffurfiol am gyfnod o ddeuddeg mis i fynd i'r afael â phryderon eraill a godwyd gan drigolion lleol. Nodwyd y byddai'r grŵp yn cynnwys aelodau ward St Catwg, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaethau, a'r Swyddogion perthnasol.

Croesawodd yr Aelodau Ward Lleol yn Catwg Sant ddiddymiad y Grŵp Cyswllt, a nodwyd bod gwelliannau wedi bod ers cyflwyno'r weithfa treulio anaerobig, a mynegodd ei obaith y byddai'r mater yn cael ei ddatrys o'r diwedd. Mewn perthynas â hyn, ei farn oedd na ellir parhau heb fewnbwn gan weithredwr a pherchennog y safle, a gofynnodd i'r Aelodau ystyried diwygiad i argymhelliad 10.2 i wahodd y gweithredwr i fynychu'r cyfarfodydd grŵp.

Mae'r Aelod Ward Lleol o Nelson wedi cefnogi'r argymhellion, ond mynegodd bryder ynghylch effaith y lefelau traffig a llygredd a gynhyrchir gan y lorïau a faniau yn symud i'r safle ac oddi yno, gan basio trwy ganol y pentref. Esboniwyd mai'r ffordd 'B' hon oedd y brif ffordd goridor o'r safle i'r A472 a'r A470. Gofynnodd yr Aelod, er lles y trigolion lleol, a fyddai modd ystyried yr effaith ar y system briffyrdd mewn unrhyw estyniadau neu ddatblygiadau yn y dyfodol.

Rhannodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd y pryderon a godwyd gan yr Aelod, a darparodd sicrwydd fod mesurau diogelwch yn cael eu hystyried, ac estynnodd wahoddiad i'r Aelod fynychu cyfarfod sydd ar y gweill â pheirianwyr priffyrdd i drafod y symudiadau traffig trwm.

Cyflwynwyd ac eiliwyd y byddai argymhellion 10.1 a 10.2 yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo gan ddibynnu ar ychwanegu gweithredwr/perchennog y safle at aelodau'r grŵp, a thrwy godi dwylo, cafodd hyn ei benderfynu'n unfryd.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a roddwyd yn adroddiad y Swyddog,: -

(i) y byddai Grŵp Cyswllt Compost Bryn yn cael ei ddiddymu;

(ii) y sefydlir grŵp trafod anffurfiol sy'n cynnwys aelodau ward St Catwg, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaethau, a chynrychiolydd o Fryn Compost a swyddogion perthnasol am gyfnod o ddeuddeg mis.

## 16. I BENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU AR GYFER Y FLWYDDYN A GWNEUD TALIAD CYFLOG UWCH

Cyflwynwyd ac eiliwyd y byddai Aelodau'n cael eu penodi'n Gadeirydd ac Is-gadeirydd ar y pwyllgorau craffu canlynol ar gyfer y flwyddyn, yn unol â'r enwau a gyflwynwyd yn y cyfarfod. Trwy godi dwylo, cafodd hyn ei gytuno'n unfrydol.

PENDERFYNWYD y byddai'r Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion ar gyfer y pwyllgorau craffu canlynol dros y flwyddyn nesaf, ac y byddai'r Cadeiryddion yn derbyn taliad cyflog uwch.

**Pwyllgor Craffu Addysg am Oes**
Cadeirydd, y Cynghorydd D. Havard Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mrs C. Andrews

**Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles**
Cadeirydd, y Cynghorydd L. Binding Is-gadeirydd, y Cynghorydd J. Bevan

**Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Pwyllgor Craffu Partneriaethau**
Cadeirydd, y Cynghorydd J. Pritchard Is-gadeirydd, y Cynghorydd G. Kirby

**Pwyllgor Craffu Adfer a'r Amgylchedd**
Cadeirydd, y Cynghorydd D.T. Davies Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mrs C. Forehead

## 17. I BENODI AELODAU AR BWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

Cynigiwyd y dylid penodi 16 aelod i wasanaethu ar y pwyllgorau craffu canlynol yn unol â'r enwau a gyflenwyd i'r Prif Weithredwr Dros Dro gan y grwpiau perthnasol. Trwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid penodi 16 aelod i wasanaethu ar y pwyllgorau craffu canlynol yn unol â'r enwau a gyflenwyd i'r Prif Weithredwr Dros Dro.

Pwyllgor Craffu Addysg am Oes
Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Pwyllgor Craffu Adfer a'r Amgylchedd

## 18. I BENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION AR BWYLLGORAU

Awgrymwyd y dylid penodi Aelodau fel Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgorau a enwir isod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, yn unol â'r enwau a gyflwynwyd yn y cyfarfod, ac y dylid gwneud taliad cyflog uwch lle bo hynny'n briodol. Trwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfryd.

PENDERFYNWYD y byddai'r Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar y pwyllgorau a enwir isod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a thalu cyflog uwch lle bo'n briodol:-

**Panel Apelio (Disgyblu/Cwynion)**
Cadeirydd, y Cynghorydd W. David Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mrs C. Forehead

**Pwyllgor Penodiadau**
Cadeirydd, y Cynghorydd Mrs E. M. Aldworth Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mrs C. Forehead

**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Cadeirydd, y Cynghorydd C. P. Mann Is-gadeirydd, y Cynghorydd G. Kirby

**Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu**
I'w penodi gan y Pwyllgor

**Pwyllgor Trwyddedu**
Cadeirydd, y Cynghorydd D. W. R. Preece Is-gadeirydd, y Cynghorydd J. Simmonds

**Pwyllgor Cynllunio**
Cadeirydd, y Cynghorydd M. Adams Is-gadeirydd, y Cynghorydd W. David

**19. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

Nodwyd y bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n cael eu penodi yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, ac y gwneir taliad cyflog uwch i'r Cadeirydd.

**20. PENODI AELODAU I WASANAETHU AR BWYLLGORAU AR GYFER Y FLWYDDYN SYDD I DDOD**

Argymhellwyd, oherwydd cynnwys y Cynghorydd M. Adams ar Aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y dylid penodi Aelodau i wasanaethu ar y pwyllgorau a restrir yn unol â'r enwau a gyflenwyd i'r Gwasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol. Trwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, oherwydd yr uchod, y dylid penodi Aelodau i wasanaethu ar y canlynol yn unol â'r enwau a gyflenwyd i'r Gwasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol:-

Panel Apelio (Disgyblu/Cwynion)(3 Aelod/3 wrth gefn)
Pwyllgor Penodiadau (7 Aelod a'r Aelod Cabinet perthnasol)
Pwyllgor Archwilio (12 Aelod)
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (16 Aelod)
Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu (7 Aelod)
Pwyllgor Trwyddedu (15 Aelod)
Pwyllgor Cynllunio (20 Aelod)
Pwyllgor Safonau (2 Aelod/2 wrth gefn)
Pwyllgor Cabinet Hawliau Tramwy (5 Aelod o'r Cabinet)

**21. AELODAU IS-BWYLLGORAU/GWEITHGORAU/PANELI A BYRDDAU**

Cynigiwyd y byddai Aelodau'n cael eu penodi i wasanaethu ar yr is-bwyllgorau/gweithgorau/paneli a byrddau canlynol yn unol â'r enwau a gyflenwyd i'r Gwasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol. Trwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfryd.

PENDERFYNWYD y byddai Aelodau'n cael eu penodi i wasanaethu ar yr is-bwyllgorau/gweithgorau/panelau a byrddau canlynol yn unol â'r enwau a gyflenwir i'r Gwasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol: -

Panel Cynghori ar Benodi a Dileu Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol (8 aelod)
Grŵp Rheoli Canol Tref Bargoed (6 Aelod lleol ac Aelod Cabinet)
Grŵp Rheoli Canol Tref Coed Duon (5 Aelod lleol ac Aelod o'r Cabinet)
Grŵp Strategaeth Cyflwyno Diogelwch yng Nghymuned Caerffili (1 Aelod)
Grŵp Tasg Tai Caerffili (Safon Ansawdd Tai Cymru)(7 Aelod)
Fforwm Mynediad Lleol Caerffili (Aelod o'r Cabinet)
Grŵp Rheoli Canol Tref Caerffili (9 Aelod ward ac Aelod o'r Cabinet)
Is-bwyllgor Cyswllt â'r Cynghorau Cymunedol (16 Aelod)
Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (7 Aelod)
Cydbwyllgor Ymgynghori Corfforaethol (Pob Aelod o'r Cabinet)
Bwrdd Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (1 Aelod)
Pwyllgor Sicrwydd Risg/Archwilio'r Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (2 Aelod)
Panel Cynghori ar Genedlaethau'r Dyfodol (11 Aelod)

Panel Grantiau i'r Sector Gwirfoddol (15 Aelod)
Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog – Gweithgor Cangen Crymlyn (aelodau ward ac aelod y Cabinet)
Pwyllgor Iawndal/Pensiynau (8 Aelod)
Panel Cyd-graffu Prosiect Gwyrdd (2 Aelod)
Grŵp Rheoli Canol Tref Rhisga (5 aelod lleol ac aelod o'r cabinet)
Gweithgor Afon Rhymni (3 Aelod)
Grŵp Arweinyddiaeth Craffu (Cadeirydd/Is-gadeirydd – Pwyllgorau Craffu/Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Archwilio)
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog dros Addysg Grefyddol (6 Aelod)
Panel Safbwynt (Aelodau Cabinet perthnasol)
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol (15 Aelod)
Grŵp Rheoli Canol Tref Ystrad Mynach (4 Aelod lleol ac Aelod o'r Cabinet)

**22. I BENODI/ENWEBU CYNRYCHIOLWYR I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL**

Cynigiwyd, gan fod y Cynghorydd J. Simmonds wedi cymryd lle'r Cynghorydd Mrs J. Gale ar Banel Maethu Caerffili ac ail-enwi Bwrdd Eiddilwch Gwent yn Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent, y byddai'r canlynol yn cynrychioli'r Cyngor ar gymdeithasau a chyrff allanol. Trwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y byddai'r Aelodau a/neu swyddogion canlynol yn cynrychioli'r Cyngor ar gymdeithasau a chyrff allanol: -

**Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan**
Y Cynghorwyr D. Price, Mrs T. Parry, J. Simmonds

**Eiriolwr yn erbyn Tlodi**
Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu – y Cynghorydd Mrs B.A. Jones

**Cronfa Les y Fyddin - Gwent**
Y Cynghorydd A. Whitcombe

**Eiriolwr Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog**
Y Cynghorydd A. Whitcombe

**Pwyllgor Rhanbarthol Cymru y Gymdeithas Ragoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE)**
Aelodau'r Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Cartrefi a Lleoedd, yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd – y Cynghorwyr C.J. Gordon, Mrs L. Phipps a S. Morgan

**Panel Maethu Caerffili**
Y Cynghorydd J. Simmonds

**Grŵp Lleihau Carbon**
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd – y Cynghorydd S. Morgan

**Cydbwyllgor Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cabinet Rhanbarthol)**
Arweinydd y Cyngor – y Cynghorydd D.V. Poole ac Aelod y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd – y Cynghorydd S. Morgan

**Gofal ac Atgyweirio - Caerffili**
Aelod y Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd – y Cynghorydd Mrs L. Phipps a'r Rheolwr Tai Sector Preifat

**Hyrwyddwr Tlodi Plant**
Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles – y Cynghorydd C.J. Cuss

**Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth**
Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol – y Cynghorydd C.J. Gordon

**Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent (Partneriaeth Gymunedol Crosskeys)**
Y Cynghorydd D.T. Hardacre

**WEA y Gogledd Coleg Harlech**
Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad – y Cynghorydd Mrs P. Marsden

**Corfforaeth Coleg Y Cymoedd (Bwrdd Llywodraethwyr Coleg Ystrad Mynach yn flaenorol)**
Sian Farquharson, Challenge Advisor EAS

**Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru**
Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd – y Cynghorwyr D.V. Poole a Mrs L. Phipps

**Grŵp Rhianta Corfforaethol**
Aelodau'r Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles ac Addysg a Chyflawniad, y Cynghorwyr C.J. Cuss a Mrs P. Marsden, y Cynghorwyr L. Binding, D. Cushing, Ms J. Gale (Aelod o'r Panel Maethu)

**Grŵp Diogelwch Corfforaethol**
Aelodau'r Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles ac Addysg a Chyflawniad, y Cynghorwyr C.J. Cuss, Mrs P. Marsden a'r Cynghorydd D. Cushing, 1 Annibynnol

**Eiriolwr Cyfeillion Dementia**
Y Cynghorydd Mrs C. Andrews

**Eiriolwyr Cam-drin Domestig**
Aelodau'r Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdogaeth - y Cynghorwyr C.J. Gordon ac N. George

**Eiriolwr Cydraddoldeb**
Y Cynghorydd J. Pritchard

**Meysydd Chwarae Cymru (Y Gymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol yn flaenorol)**
Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Gymdogaeth – y Cynghorydd N. George

**Eiriolwr Cenedlaethau'r Dyfodol**
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd – y Cynghorydd S. Morgan

**Cydbwyllgor Archifau Morgannwg**
Y Cynghorydd Mrs B.A. Jones ac A.G Higgs

**Cydbwyllgor Amlosgi Gwent Fwyaf**
Y Cynghorydd J. Simmonds a J. Taylor

**Groundwork Cymru**
Y Cynghorydd D. Havard

**Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent**

Y Swyddog Perthnasol a’r Cynghorydd A. Higgs

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent**
Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles – y Cynghorydd C.J. Cuss

**Cydbwyllgor Archifau Gwent**
Y Cynghorwyr Mrs B.A. Jones ac A.G. Higgs

**Panel Heddlu a Throseddau Gwent – wedi’i gydbwyso’n wleidyddol ar draws Gwent**
Y Cynghorwyr Mrs C. Forehead, G. Kirby a C.P. Mann

**Eiriolwr Pobl Ddigartref**
Aelod y Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd – y Cynghorydd Mrs L. Phipps

**Cynghrair Cymunedau Diwydiannol (Ymgyrch Cymunedau Glofaol yn flaenorol)**
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd – y Cynghorydd S. Morgan

**Bwrdd Rheoli Clwb Bowls Dan Do Islwyn**
Y Cynghorydd M. Adams ac Aelod y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau’r Gymdogaeth – y Cynghorydd N. George

**Cydgyngor Cymru**
Aelodau’r Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chartrefi a Lleoedd – y Cynghorwyr C.J. Gordon a Mrs L. Phipps

**Y Ganolfan Ddysgu (Uned Cyfeirio Disgyblion)**
Y Cynghorydd M. Evans

**Gweithredu Awdurdod Lleol dros Dde Affrica (LAACTSA)**
Y Cynghorydd R. Saralis

**Y Gymdeithas Llywodraeth Leol**
Arweinydd y Cyngor – y Cynghorydd D.V. Poole ac Aelodau’r Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu, yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd a Gwasanaethau’r Gymdogaeth – y Cynghorwyr Mrs B.A. Jones, S. Morgan a N. George

**Cyd-grŵp Llywio Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog** (Partneriaeth Adfer Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog yn flaenorol)
Aelodau’r Cabinet dros Wasanaethau’r Gymdogaeth a’r Amgylchedd a Diogelu’r Cyhoedd – y Cynghorwyr N. George a Mrs E. Stenner (wrth gefn, y Cynghorydd C. Thomas)

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**
Y Cynghorydd D. Havard

**Eiriolwr Pobl Hŷn**
Y Cynghorydd Mrs B.A. Jones

**Panel Budd Cymunedol Fferm Wynt Pen Bryn Oer**
Aelod ar gyfer ward Twyn Carno Ward – y Cynghorydd C. Cuss

**Pwyllgor Cyswllt Menter Cyllid Preifat**
Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad – y Cynghorydd Mrs P. Marsden

**Cydbwyllgor Prosiect Gwyrdd**
Aelodau'r Cabinet dros Wasanaethau'r Gymdogaeth a Gwasanaethau Corfforaethol - y Cynghorwyr N. George a C.J. Gordon

**Datganiad Technegol Rhanbarthol (Cyfun)**
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd – y Cynghorydd S. Morgan

**Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol**
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd – y Cynghorydd S. Morgan

**Cymdeithas Lluoedd a Chadetiaid Wrth Gefn Cymru**
Y Cynghorydd A. Whitcombe

**Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach**
Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd – y Cynghorydd Mrs E. Stenner

**Fforwm Derbyniadau Ysgolion**
Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad – y Cynghorydd Mrs P. Marsden

**Fforwm Cyllideb Ysgolion**
Aelodau'r Cabinet dros Addysg a Chyflawniad a Chyllid, Perfformiad a Llywodraethu – y Cynghorwyr Mrs P. Marsden a Mrs B.A. Jones

**Grŵp Amgylchedd Ardal y De-ddwyrain**
Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd –y Cynghorydd Mrs E. Stenner

**Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru**
Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd – y Cynghorydd Mrs E. Stenner

**Awdurdod Tân ac Achub De Cymru**
Y Cynghorwyr D.T. Davies, A. Hussey, C. Elsbury

**Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru**
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd – y Cynghorydd S. Morgan

**Panel Cist Gymunedol Sportlot**
Y Cynghorwyr A. Gair, C. Thomas a W. Williams

**St. Johns Cymru Wales**
Y Cynghorydd Mrs C. Andrews

**Y Comisiwn Trefol (Cymdeithas Llywodraethau Lleol)**
Y Cynghorydd S. Morgan

**Fforwm Ardal Ddi-Niwclear Cymru a Chenedlaethol**
Y Cynghorydd Mrs C. Forehead

**Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**
Y Cynghorydd A. Gair

**Cyngor Llyfrau Cymru (3 blynedd) a Phwyllgor Gweithredol Cyngor Llyfrau Cymru (1 flwyddyn)**
Y Cynghorydd J. Simmonds

**Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru**
Y Cynghorydd D. Havard

**Cronfa Eglwysi Cymru**
Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol - y Cynghorydd C. Gordon, Wrth Gefn - Aelod y Cabinet dros Gyllid Perfformiad a Llywodraethu - y Cynghorydd Mrs B.A. Jones

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Arweinydd y Cyngor - y Cynghorydd D.V. Poole ac Aelodau'r Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu, yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd a Gwasanaethau'r Gymdogaeth - y Cynghorwyr Mrs B.A. Jones, S. Morgan ac N. George

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Bwrdd Gweithredol**
Arweinydd y Cyngor - y Cynghorydd D.V. Poole

**Consortiwm Prynu Cymru** – i'w ddiddymu maes o law
Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol - y Cynghorydd C. Gordon

**Ymgyrch y Rhuban Gwyn**
Y Cynghorydd N. George

**CBAC**
Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad – y Cynghorydd Mrs P. Marsden

**Cymdeithas Addysg y Gweithwyr – Pwyllgor Rhanbarth De Cymru**
Y Cynghorydd Mrs C. Forehead

**Eiriolwr Ieuenctid (wedi'i benodi gan y Fforwm Ieuenctid)**
Y Cynghorydd M. Evans

**Fforwm Ieuenctid**
Y Cynghorwyr C.J. Cuss a J. Pritchard yn ogystal ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad – y Cynghorydd Mrs P. Marsden a'r Eiriolwr Ieuenctid

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00pm

Cymeradwywyd fel cofnod cywir, a gan ddibynnu ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2018, cawsant eu llofnodi gan y Maer.

____________________________
MAER